

GWASANAETH FFOADURIAID

GALWAD I ADDOLI

Bloeddiwch mewn gorfoledd i'r Arglwydd, yr holl ddaear.
Addolwch yr Arglwydd mewn llawenydd, dewch o'i flaen â chân.
Gwybyddwch mai'r Arglwydd sydd Dduw; ef a'n gwnaeth, a'i eiddo ef ydym, ei bobl a defaid ei borfa. Dewch i mewn i'w byrth â diolch, ac i'w gynteddau â mawl.
Diolchwch iddo, bendithiwch ei enw.
Oherwydd da yw'r Arglwydd; y mae ei gariad hyd byth, a'i ffyddlondeb hyd genhedlaeth a chenedlaeth.
Salm 100

GWEDDI

Diolch i ti, O Dduw, am gynulleidfa dy bobl ac addoliad dy dŷ. Wrth i'n haddoliad ein dwyn yn agos atat ti, bydded i ni hefyd agosáu at ein gilydd. Wrth i ni gael ein hatgoffa o'n hangen ein hunan, bydded i ni fod yn ymwybodol o anghenion ein gilydd, ac anghenion y byd. Bydded i'n haddoliad ein hadnewyddu a'n herio i roi ein hunain o'r newydd i waith y Deyrnas. Yn enw Iesu, Amen.

EMYN *Ceisiwch yn gyntaf Deyrnas ein Duw* (Caneuon Ffydd 274)

Arweinydd: Yn ein hoedfa heddiw rydym am gofio ffoaduriaid y byd. Mae dros 65 miliwn o bobl wedi gorfod ffoi oherwydd gwrthdaro a thrais. Ceisiwn ddirnad a deall teimladau, dyheadau a phryderon y rhai sydd yn teithio dros dir a môr. Fe gofiwn y plant sy'n fregus ar y daith: y rhai sy'n llwyddo yn y cyrraedd a'r rhai sy'n methu.

O weld lluniau'r miloedd ar y daith, fe ystyriwn fethiannau ein harweinyddion i fod yn gyflym i ymateb i'r argyfwng. Fe ystyriwn y diffyg croeso, a'r geiriau cas a ddywedwyd ac a gyhoeddwyd am ddieithriaid a'r rhai sydd ar y daith. Fe ystyriwn ein hamharodrydd ninnau weithiau i ymateb gyda geiriau caredig a da.

DARLLENIAID O'R HEN DESTAMENT

Yn ystod y cyfnod pan oedd y barnwyr yn llywodraethu, bu newyn yn y wlad, ac aeth dyn o Fethlehem Jwda gyda'i wraig a'i ddau fab i fyw dros dro yng ngwlad Moab. Elimelech oedd enw'r dyn, Naomi oedd enw ei wraig, a Mahlon a Chilion oedd enwau'r ddau fab. Effrateaid o Fethlehem Jwda oeddent, ac aethant i wlad Moab ac aros yno. Ond bu farw Elimelech, gŵr Naomi, a gadawyd hi'n weddw gyda'i dau fab. Priododd y ddau â merched o Moab; Orpa oedd enw'r naill a Ruth oedd enw'r llall. Wedi iddynt fod yno tua deng mlynedd, bu farw Mahlon a Chilion ill dau; a gadawyd y wraig yn amddifad o'i dau blentyn yn ogystal ag o'i gŵr.

Ruth 1: 1-5

DARLLENIAID O'R TESTAMENT NEWYDD

Yr oedd rhyw ddyn yn mynd i lawr o Jerwsalem i Jericho, a syrthiodd i blith lladron. Wedi tynnu ei ddillad oddi amdano a'i guro, aethant ymaith a'i adael yn hanner marw. Fel y digwyddodd yr oedd offeiriad yn mynd i lawr y ffordd honno; pan welodd ef, aeth heibio o'r ochr arall. Yr un modd daeth Lefiad hefyd at y man: gwelodd ef ac aeth heibio o'r ochr arall. Ond daeth teithiwr o Samariad ato, pan welodd hwn ef, tosturiodd wrtho. Aeth ato a rhwymo ei glwyfau, gan arllwys olew a gwin arnynt; gosododd ef ar ei anifail ei hun, a'i arwain i lety, a gofalu amdano. Trannoeth tynnodd ddau ddarn arian allan a'u rhoi i'r gwesteiwr, gan ddweud, "Gofala amdano. Os byddi wedi gwario rhywbeth dros ben, fe dalaf i yn ôl iti pan ddychwelaf." P'run o'r tri hyn, dybi di, fu'n gymydog i'r dyn a syrthiodd i blith lladron? Meddai ef, "Yr un a gymerodd drugaredd arno." Ac meddai Iesu wrtho, "Dos a gwna dithau'r un modd."

Luc 10: 30-37

Chwarae cân Gwyneth Glyn - 'Adra' (ar gael ar y CD *Wyneb Dros Dro* neu'r CD *Rhosyn Rhwng Fy Nannedd*). Os yn bosibl trefnwch fod y gerdd sy'n dilyn yn cael ei darllen gyda'r gân yn gefndir.

CERDD - ADREF

Does neb yn gadael adref oni bai bod adref fel safn siarc.

Dwyt ti ddim yn croesi ffin i wlad arall am byth, oni bai bod llond tre o bobl yn rhedeg gyda thi hefyd.

A phan fyddi di'n rhedeg fel gwnes i, mae dy gymdogion yn rhedeg yn gynt na ti, ac anadl yn waed yn eu gyddfau.

Pam? Achos rwy'ti'n gweld mai'r bachgen roddodd gusan iti tu ôl i'r hen ffatri dun pan oeddet ti'n blentyn, yw'r un sy'n dal baril y gwn i dy ben, a ti'n gorfod gadael adref.

Ti'n gadael oherwydd bod adref yn gwrthod gadael iti aros adref.

Mae adref yn dy hysio, yn dy ymlid i ffwrdd

am fod tân yn y llofftydd,

a gwaed ar lawr y gegin

a'r ffenestri'n fwledi teilchion.

Mae'n rhaid i ti ddeall

nad oes neb yn rhoi eu plant mewn cwch,

os nad ydi'r dŵr yn saffach na'r ddaear dan draed.

Does neb yn llosgi cledrau'u dwylo o dan drenau,

nac yn chwydu am nosweithiau mewn stumog tryciau,

nac yn straffaglu drwy dyllau ffensys,

nac yn dioddef cael eu curo a'u pitio

a hynny er mwyn cyrraedd y 'nunlle saff' am ddim rheswm.

Does neb yn dewis byw mewn gwersyll ffoaduriaid

na'n gwirfoddoli cael eu dadwisgo'n noeth rhag ofn bod cylllell wedi cuddio ar eu cyrff.

Does neb yn dewis lloches ffoadur na sach gysgu dyllog ar lwybr caregog.

Na, does dim dewis - tydi adref ddim yn ddiogel bellach.

Does neb yn dioddef enllib, 'Dos adref ffoadur! Ti'n drewi! Ti'n sbynjar! Ti'n straen ar ein gwlad!'

Ond mae hynny'n llawer haws na gweld dy blant yn cael eu treisio

a dy fam-gu yn cael ei llabyddio.

Mae geiriau maleisus yn haws na llyncu galar ac artaith.

Cofiwch fod adref nawr fel safn y siarc.

Adref yw blas y fwled,

ac adref sydd wedi fy ymlid at draeth y môr

ac sydd wedi mynnu fy mod yn gadael fy nillad budr ar eich glannau.

Adref sydd wedi fy ngorfodi i nofio drwy gefnfor,

boddi, achub, llwgu, begera,

a cholli fy malchder er mwyn goroesi.

Does neb yn gadael adref heb fod adref yn sibrwd yn dy glust di yn dweud

"Dos, cer, ffo oddi wrtha i...

Ffwrdd â thi, achos dydi adref ddim yn adref ddim mwy.

Mae dy adref di fel safn y siarc.

Dianc oddi wrtha i oherwydd rwy'n gwybod, bod rhywle yn fyw diogel o lawer iti na'r adref alla i roi iti yma."

Addasiad rhydd i'r Gymraeg o'r gerdd 'Home' gan Warsan Shire

Cymerwch funud neu ddau i ystyried a meddwl yn dawel

- Beth mae adref yn ei olygu i chi?
- Beth fyddai'n cymryd i chi adael adref?
- Lle fyddech chi'n troi am groeso a lloches?

Diolchwch am yr hyn sydd gennych. Gweddiwch dros y rhai a gollodd bethau tebyg. Ymrwymwch i weithio dros heddwch a chyfiawnder.

EMYN *Nid oes yng Nghrist na dwyrain, de* (Caneuon Ffydd 807)

GWEDDIAU

(Awgrymwch eich bod yn cynnau kannwyll ar ddechrau pob un o'r gweddïau unigol)

| | |
|-------------------------|--|
| Darllenydd : | <i>Dywedodd yr ARGLWYDD wrth Abram: 'Dos o'th wlad, ac oddi wrth dy dylwyth a'th deulu, i'r wlad a ddangosaf i ti.'</i> (Genesis 12: 1) |
| Cynulleidfa : | Gweddiwn dros y rhai sydd, fel Abram a Sara, yn teithio i wlad arall. Gweddiwn y byddant hwythau, hefyd, yn derbyn bendith. |
| Darllenydd : | <i>Pan ollyngodd Pharo'r bobl yn rhydd... yr oedd yr Arglwydd yn mynd o'u blaen mewn colofn o niwl yn ystod y dydd i'w harwain ar y ffordd, ac mewn colofn o dân yn ystod y nos i'w goleuo...</i> (Exodus 13: 17,21) |
| Cynulleidfa : | Cofiwch am bob un sydd wedi mynd allan i chwilio am ryddid a bywyd gwell, ac sydd, yn awr, yn teithio i'r anhysbys. Bydded i oleuni tyner Duw lywio eu llwybrau. |
| Darllenydd : | <i>Aethom ar fwrdd llong o Adramytium oedd ar hwylio i'r porthladdoedd ar hyd glannau Asia, a chodi angor....</i> (Actau 27:2) |
| Cynulleidfa : | Cofiwch am y rhai sy'n barod i fentro popeth, hyd yn oed eu bywydau, er mwyn y cyfle am fywyd newydd. Bydded iddynt ddarganfod ffyrdd diogel o ddianc, a chartref ar ben eu taith. |
| Darllenydd : | <i>Dywedodd Josua wrth swyddogion y bobl am fynd trwy ganol y gwerysll a gorchymyn y bobl, 'darparwch ichwi luniaeth.'</i> (Josua 1:10-11) |
| Cynulleidfa : | Gweddiwn dros y rhai mewn gwerysll oedd ffoaduriaid, yn brin o adnoddau a chyfleusterau, sy'n disgwyl am newyddion ac am obaith. Bydded i'w dechrau newydd ddod yn fuan. |
| Darllenydd : | <i>Onid i ti, bydd yr Arglwydd yn noddfa: gwnaethost y Goruchaf yn amddiffynfa; ni ddigwydd niwed i ti, ac ni ddaw pla yn agos i'th babell.'</i> (Salm 91:9-10) |
| Cynulleidfa : | Cofiwch y rhai sy'n gorfod ceisio lloches ac sydd, er eu cryfder, yn fregus. Bydded i gariad Duw eu hamddiffyn a'u cadw'n ddiogel. |
| Darllenydd : | <i>Paid â llawenychu yn fy erbyn, fy ngelyn: er imi syrthio, fe godaf. Er fy mod yn trigo mewn tywyllwch, bydd yr Arglwydd yn oleuni i mi.'</i> (Micha 7:8) |
| Cynulleidfa : | Gweddiwn dros bawb sy'n ofnus, sydd wedi dioddef gormes gelynyon a thrais y creulon. Bydded iddynt godi eto mewn mannau diogel, wedi eu goleuo gan gariad a chroeso. |
| Darllenydd : | <i>Dyma angel yr Arglwydd yn ymddangos i Joseff mewn breuddwyd, ac yn dweud; 'Cod a chymer y plentyn a'i fam gyda thi, a ffo i'r Aifft, ac aros yno hyd nes y dywedaf wrthyf.'</i> (Mathew 2:13) |
| Cynulleidfa : | Dduw, a gafodd loches mewn gwlad ddieithr yn Iesu Grist, rho dy fendith gref a'th gariad gwydn i bob un sy'n gorfod ffoi yn awr, a chaniatâ iddynt brofi chyfiawnder. |

| | |
|-------------------------|---|
| Darllenydd : | <i>Gwae chwi'r Phariseaid, oherwydd yr ydych yn talu degwm o fintys a rhyw a phob llysieuyn, ond yn diystyru cyfiawnder a chariad Duw (Luc 11:42)</i> |
| Cynulleidfa : | Gweddiwn dros ein harweinwyr, iddynt weld fod dyletswydd foesol yn eu gorfodi i weithredu ar frys ac ymateb yn hael i gwrdd â maint a difrifoldeb yr argyfwng. |
| Darllenydd : | <i>A phryd y'th welsom di'n ddieithr a'th gymryd i'n cartref?' (Mathew 25: 38)</i> |
| Cynulleidfa : | Bydded i Iesu Grist, sy'n bresennol ble bynnag y mae dioddefaint, ac i'w weld yn wyneb pob dieithryn, ein cael ni yn barod i groesawu a chynnwys eraill, yn barod i herio'r grymus, ac yn dyheu am well byd, heddiw a phob amser. Amen |
| Darllenydd : | Yn enw Iesu, gweddiwn y weddi sy'n uno plant Duw ar draws y canrifoedd ac ym mhob rhan o'r byd. Ein Tad ... |

EMYN *Cofia'r newynog, nefol Dad* (Caneuon Ffydd 816)

MYFYRDOD (Seiliedig ar Ruth 1: 1-5)

Mewn ychydig o frawddegau cynnil, ar ddechrau llyfr a ysgrifennwyd miloedd o flynyddoedd yn ôl, fe ddarlunnir sefyllfa gyfoes iawn. Clywn am deulu bach yn gorfod gadael eu gwlad a symud i wlad arall i fyw. Ffoaduriaid oedd Elimelech, Naomi, Mahlon a Chilion - ceiswyr lloches, mudwyr economaidd a'r termau eraill rydym yn hen gyfarwydd â hwy erbyn hyn. Ffoi rhag newyn y maen nhw, ond fe allent fod yn ffoi rhag rhyfel, gorthrwm, effeithiau newid hinsawdd, tloedi neu ddiffyg gwaith. Maent yn chwilio am fwyd, ond fe allent fod yn ceisio lloches, diogelwch, man heddychlon i fagu teulu, sicrwydd economaidd neu jyst bywyd gwell. Dyna mae pobl wedi gwneud erioed, dyna maen nhw'n gwneud heddiw, a phwy all eu beio am hynny.

Mae stori Ruth am bobl sy'n cael eu gyrru gan amgylchiadau ac argyfwng, a byth mewn gwirionedd yn llwyddo i ddianc rhagddynt. Bu farw Elimelech, Mahlon a Chilion, gan adael Naomi, Orpa a Ruth yn weddwon, ar drugaredd amgylchiadau unwaith eto. Mor aml mae tloedi a dioddefaint yn mynd law yn llaw. Y tlotaf, y rhai sydd heb fawr ddim, y rhai a wthiwyd eisoes i'r cyrion yw'r rhai sy'n gyson yn dioddef fwyaf. Pan fydd corwynt, daeargryn neu tsunami yn taro, pwy sy'n dioddef, onid y lleiaf abl i amddiffyn eu hunain? Pan ddaw sychder a newyn oherwydd newid hinsawdd, pwy sy'n dioddef fwyaf, onid y rhai sydd eisoes yn crafu byw mewn amgylchiadau caled a didostur? Dyma gylch dieflig tloedi a dioddefaint, sydd mor anodd i ddianc rhagddo. Dyna pam fod angen cymorth a chroeso, a phwysau ar lywodraethau i weithio i sicrhau heddwch a sefydlogrwydd yn ein byd, oherwydd dyma'r unig ffordd i wirioneddol dorri'r cylch a rhyddhau pobl.

Ond hefyd mae stori Ruth yn stori am bobl yn cael eu derbyn. Pobl yn cael croeso a chartref, lloches a diogelwch mewn gwlad ddieithr. 'Aethant i wlad Moab ac aros yno.' Yn nes ymlaen yn y stori fe glywn am Ruth yn gwneud y daith y ffordd arall, gan gael yr un croeso a chyfle am fywyd newydd yn Jwda. Dwy wlad wahanol oedd Moab a Jwda - duwiau gwahanol, arferion gwahanol, diwylliannau gwahanol, ac eto mae yna groesawu a derbyn o'r ddwy ochr. Mae Mahlon a Chilion yn priodi merched Moab, mae Ruth yn priodi gŵr o Jwda. Onid oes gan stori Ruth lawer i'n dysgu am groesawu'r dieithryn a derbyn pobl sy'n wahanol i ni. Bod yn gymdogion i'r estron a'r gwrthodedig a gofalu am y llai ffodus?

‘Pwy yw fy nghymydog?’, oedd y cwestiwn a esgorodd ar ddameg y Samariad Trugarog a glywsom yn gynharach. Mae ateb Llyfr Ruth yn adleisio ateb Iesu - yr un sydd angen trugaredd, pwy bynnag ydyw.

Mae’n werth nodi hefyd ein bod yn cael gwybod pwy yw’r bobl sydd yn y stori. Pobl dlawd a di-nod yw’r cymeriadau, pobl yr ymylon nad oedd yn cyfrif llawer yng ngolwg y byd, a nifer ohonynt yn wragedd oedd ar waelod y domen o safbwynt cymdeithas y dydd. Dim ond am ennyd fer y mae rhai ohonynt yn ymddangos yn y stori, eto mae’r awdur yn gofalu ein bod yn gwybod eu henwau - Elimelech, Mahlon, Chilion, Naomi, Orpa a Ruth.

Ni chawn golli golwg ar y ffaith mai unigolion o gig a gwaed yw’r bobl yma. Mae gwybod enw yn personoli gan ein helpu i weld yr unigolyn, tebyg i ni, sydd a’i fywyd, ei deulu a’i stori unigryw.

Cymharwch hyn gyda adrannau o’r wasg boblogaidd sy’n hoffi defnyddio labeli - ymfudwyr, ceiswyr lloches, mudwyr economaidd, haid, *freeloaders*, twyllwyr. Dyma’r math o iaith sy’n ddbersonoli, yn cadarnhau a bwydo rhagfarnau’r darllenwyr ac yn rhwyddhau’r ffordd i bobl siarad ac ymddwyn yn galed a didostur, gan ddiystyru a gwrthod.

Mor rhwydd yw bod yn ddistaw wyneb yn wyneb â’r lleisiau sy’n gwaeddi’n uchel a chroch, ond mae’n rhaid codi llais yn ei erbyn.

Mewn llythyr a ysgrifennwyd gan Martin Luther King pan oedd yn y carchar ym mlynnyddoedd cynnar y frwydr dros hawliau sifil i bobl groenddu America, fe ddywed: ‘Bydd yn rhaid inni edifarhau yn y genhedlaeth hon nid yn unig am eiriau a gweithredoedd ffaidd y bobl ddrwg, ond am ddistawrwydd dychrynlyd y bobl dda.’

Mae ffyddlondeb i Iesu yn alwad i ddinoethi a herio, gwrthod a gwrthwynebu pob peth sy’n dwyn oddi wrth ddynion a gwagedd yr urddas cynhenid a rhoddir gan Dduw, wrth ein creu ar ei lun a’i ddelw ei hun.

GWEDDI

Arglwydd Dduw, helpa ni i gofio’r rhai fydd yn mynd i gysgu heno heb fwyd na chroeso, dieithriaid mewn gwledydd estron, pobl sydd wedi ffoi am eu bywyd ac sydd ymhell o adref.

Cyflwynwn i ti’r rhai sy’n ceisio dianc rhag erlid a gwrthdaro, wedi ffoi rhag marwolaeth, poenydio neu ymelwad didostur ac mewn gwersylloedd ar draws Ewrop. Mae llawer ohonynt wedi eu clwyfo yn feddyliol a chorfforol, ac wedi dioddef cymaint. Cyflwynwn hefyd y rhai a fethodd adael, ac sy’n byw ynghanol creulondeb, trais ac anghyfiawnder yn ddyddiol.

Arglwydd Iesu, llanw ni a’th dosturi am eu tynged, tynera’n calonnau i’w sefyllfa, a helpa ni i ddilyn dy arweiniad wrth geisio cyfiawnder a thrugaredd iddynt. Arglwydd, gweddiwn am ddiwedd ar ryfel, tloedi a cham-drin hawliau dynol sy’n achosi cymaint o ddiodefaint, ac yn gyrru pobl anobeithiol i ffoi.

Rhown ddiolch am y rhai sy’n gweithio yn y gwledydd lle mae terfysg a gwrthdaro’n teyrnasu. Nertha hwy i allu rhoi bywyd, urddas a gobaith i’r rhai sy’n dal yno.

Gweddiwn dros wladweinwyr a gwleidyddion, diplomyddion a llunwyr polisïau. Rho iddynt weledigaeth glir o ffordd ymlaen fydd yn arwain at gymod ac adferiad trwy gydweithredu.

Diolchwn mai Ti yw Arglwydd y ddaear a’i llawnder a bod pawb sy’n byw ynddo yn wrthrych dy gariad di.

Gofynnwn hyn yn enw dy fab Iesu, a anwyd i fywyd cythryblus y ffoadur. Amen

OFFRWM (Awgrymwn eich bod yn cyflwyno'r casgliad i Cymorth Cristnogol a/neu'r Banc Bwyd Lleol).

ARWEINYDD

Diolch am eich rhoddion fydd yn mynd at waith ond mae cymaint mwy y gallwn ni ei wneud. Gadewch i ni, yn ystod yr wythnos, chwilio am y wybodaeth ddiweddaraf am ffoaduriaid, a'r hyn sy'n cael ei wneud gan fudiadau i'w helpu, a pha gyfleoedd sydd ar gael i'w cefnogi. Oes yna fudiad yn lleol sy'n codi ymwybyddiaeth am yr argyfwng ffoaduriaid? Oes cynlluniau gan yr awdurdod lleol i dderbyn ffoaduriaid i'ch ardal chi, ac oes rhywbeth gallwch chi a'r eglwys ei wneud? Beth am anfon llythyr neu e-bost at eich aelod seneddol yn galw am ymateb anrhydeddus a chroesawgar gan lywodraeth Prydain? Ar hyn o bryd mae Cymorth Cristnogol yn gofyn i bobl anfon cerdyn Nadolig at Theresa May, yn ei hatgoffa o neges heddwch ac ewyllys da'r Nadolig, a'i bod hi'n sicrhau bod ei geiriau a'i pholisïau yn adlewyrchu traddodiad anrhydeddus y gwledydd hyn o groesawu ffoaduriaid. Gellir hefyd ddwyn pwysau ar ein harweinwyr gwleidyddol i gydweithio'n rhyngwladol er mwyn dod o hyd i ateb heddychlon a chyfiawn i'r argyfwng presennol.

EMYN *Arglwydd Iesu, llanw d'eglwys* (Caneuon Ffydd 839)

Gweddiwn am gysur i'r rhai sydd mewn ofn, caredigrwydd i'r rhai sydd mewn angen, a thawelwch dy ras i'r rhai sydd wedi colli cymaint.

Ymrwymwn o'r newydd i'r ymdrech dros heddwch, gan sylweddoli mai teithwyr ydym oll, ar daith drwy'r byd hwn i'r Deyrnas ddiddiwedd a ddatguddiwyd yn Iesu Grist. Amen

(Mae'r gwasanaeth yn cynnwys addasiadau o ddeunydd gan Cymorth Cristnogol, Tearfund, Cytun a Gwawr Maelor)